## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr D R Hughes, Victor Hughes, R Meirion Jones, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, P S Rogers a Dafydd Rhys Thomas |
| **YN BRESENNOL:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Richard Owain Jones |

### 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

### 2 ETHOL IS-GADEIRYDD

Ailetholwyd y Cynghorydd Richard Owain Jones yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor hwn yn ei absenoldeb.

### 3 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mawrth, 2015 fel rhai cywir.

### 4 GWEDDARLLEDU CYFARFODYDD

Cyflwynwyd - adroddiad cynnydd gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn crynhoi gwybodaeth am weddarlledu cyfarfodydd fel rhan o'r cynllun peilot 2 flynedd.

Nodwyd bod Arweinyddion y Grwpiau a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn cefnogi parhau i weddarlledu ac mae’n debygol y bydd deddfwriaeth yn y dyfodol yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru i ddarlledu cyfarfodydd o’r Cyngor llawn a'r Pwyllgor Gwaith. Byddai arian grant yn debygol o gwrdd â’r costau yn ystod 2016/17 a byddai angen adrodd ar hyn i’r Pwyllgor Gwaith am benderfyniad.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn cefnogi parhau i weddarlledu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gwaith, y Cyngor Sir a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.**

## 5 ADRODDIADAU BLYNYDDOL YR AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas ag Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau a oedd yn nodi bod pob Aelod wedi paratoi Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014/15 a bod gwybodaeth wedi ei chyhoeddi ar-lein.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd at yr amserlen arfaethedig ar gyfer cwblhau a chyhoeddi Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau ar gyfer 2015/16 a nododd mai'r dyddiad cau ar gyfer gwneud hynny oedd 30 Mehefin, 2016.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 6 AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd hefyd at y Rhaglen Fentora ac at wybodaeth a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gwybodaeth ar gyfer unigolion sydd â diddordeb mewn sefyll fel Cynghorwyr yn etholiadau 2017.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 7 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR AM 2015/16

Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd ar Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2015/16.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod y Pwyllgor wedi nodi'r canlynol fel rhan o'i raglen waith ar gyfer 2015/16: -

- Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau (yn cynnwys Adolygiadau Datblygiad Personol);
- Gweddarlledu cyfarfodydd;
- Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau;
- Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol;
- Digonolrwydd y trefniadau i gefnogi rolau Aelodau;
- Y gyllideb ar gyfer 2015/16 a'r effaith ar y Gwasanaethau Democrataidd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.50 pm

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**